NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

BOCSYS ESGIDIAU NADOLIG

Bydd y bocsys yn cael eu casglu gan gynrychiolydd o Operation Christmas Child fore Sul, Tachwedd 29ain.

Y TWMIAID BACH

Cofiwch am y Twmiaid Bach i blant blwyddyn 5 ac uwch bob yn ail nos Sul am 5 o'r gloch yn Y Ganolfan. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 29, ac wedyn ar Ragfyr 13

HAMPERI NADOLIG

Mae newid yn nhrefniadau'r Hamperi Nadolig eleni. Rydym wedi cytuno gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ariannu'r hamperi a byddan nhw'n eu paratoi yn ein lle. Byddwn yn anelu at 23 o hamperi, yn costio £20 yr un. Felly does dim angen rhoddion bwyd eleni, ond fe ddown ar eich gofyn yn nes ymlaen i'n helpu gyda'r gost. Hon yw'r ffordd rwyddaf i sicrhau nad oes neb anghenus yn colli allan am ein bod yn atgyweirio'r capel.

CASGLIAD YN TESCO TONYSGUBORIAU AR GYFER BANC BWYD PONTYCLUN

Dyddiau Iau, Gwener a Sadwrn Rhagfyr 3, 4 a 5. Shifftiau dwyawr rhwng 10 a 6 o'r gloch. Os oes gennych ddwyawr i'w sbario, plîs cysylltwch ag Ann Davies 029 2089 1344 neu e-bostio ann.pentyrch@btinternet.com

CARDIAU NADOLIG

Dewis da ar werth gan Ann Rees

Y SULIAU NESAF

Tachwedd 29:
Y Parchg. Gethin Rhys
Llywydd: Helen Prosser
Taflen: Ros Evans

Rhagfyr 6:
Oedfa Gymun gydag
Aelodau Groes-faen a Creigiau

Rhagfyr 13:
Y Parchg. Aled Edwards
Taflen: Dafydd Roberts

Rhagfyr 20:
Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul a'r Twmiaid

Rhagfyr 24:
Cyfarfod dwyieithog am 11:00p.m.

Rhagfyr 27:
Y Parchg. D. Eirian Rees
Llywydd: Geraint Wyn Davies
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

Organyddion a Chyfeilyddion

Er mwyn symud ymlaen gyda threfniadau'r organ ar gyfer 2016, yn dilyn ymddeoliad Carey fel Prif Organydd ar ddiwedd y flwyddyn, fe gynhelir cyfarfod byr fore Sul 29ain Tachwedd yn syth wedi'r oedfa. Gofynnir i'r rhai hynny sy'n gallu cynorthwyo'n rheolaidd neu yn achlysurol (ar yr organ neu'r piano neu offeryn arall), ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, fynychu'r cyfarfod hwn.

MASNACH DEG

Bydd siop Masnach Deg Treganna ar agor nos Lun Tachwedd 30ain o 6:00 tan 8:30 p.m. ar gyfer eich siopa Nadolig. Dewch i gefnogi cynhyrchwyr bach y gwledydd tlawd. Dillad, bwydydd a lluniaeth ysgafn.